



# Astudiaethau Achos Cwm Taf 2016



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE  
**RHONDDA CYNON TAF**  
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

cefnogipobl  
supportingpeople

supporting independence  
cefnogi annibyniaeth



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council



# ASTUDIAETHAU ACHOS CWM TAF 2016

## Cynnwys:

|                                         | Rhif y Dudalen |
|-----------------------------------------|----------------|
| <b>Rhagair</b>                          | 3              |
| <b>Gwasanaethau byr dymor</b>           | 3              |
| Pobl â hanes o droseddu                 | 4              |
| Pobl â hanes o droseddu                 | 5              |
| Pobl Ifanc ag anghenion cymorth (16-24) | 6              |
| <b>Gwasanaethau tymor hir</b>           | 7              |
| Anableddau Dysgu                        | 8              |
| Anableddau Dysgu                        | 9              |

**Nodwch fod pob enw wedi'i newid i ddiogelu manylion adnabod ein defnyddwyr gwasanaeth.**

## Rhagair



### Cadeirydd Cydbwyllgor Rhanbarthol Cwm Taf – y Cynghorydd Linda Matthews

Fel Cadeirydd newydd RCC Cwm Taf, rwy'n falch iawn o ddwyn ynghyd y casgliad hwn o astudiaethau achos o bob rhan o Gwm Taf. Mae'n fwyfwy pwysig i ddangos gwerth y gwasanaethau a ddarparwn. Ond mae hyn yn mynd ymhellach na'r arbedion cost ariannol.

Roeddwn i'n falch iawn o weld fod cynifer o'r gwasanaethau rydym yn eu comisiynu yn nhîm Cefnogi Pobl ar draws Cwm Taf yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pob dydd y rhai mwyaf agored i niwed ar draws y ddwy ardal awdurdod lleol. Y ddogfen hon o astudiaethau achos yw'r cyntaf mewn cyfres y byddwn yn eu llunio i ddangos agwedd dynol effaith y gwasanaethau a ddarparwn ochr yn ochr â'r arbedion cost maent wedi'u gwneud.

## Gwasanaethau byr dymor

### Pobl â Hanes o Droseddu

#### Manylion Personol:- 'JJ', Oedran 46, Merthyr Tudful

**Hanes Personol:-** Roedd y defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn ddigartref ers sawl blwyddyn, ar ôl symud i Gymru o Iwerddon. Roedd ganddo broblemau camddefnyddio alcohol, ac roedd wedi gadael y carchar yn ddiweddar ar ôl dedfryd hir am droseddau treisgar. Roedd ar incwm isel o ddim ond £55 yr wythnos, gan fod didyniadau yn cael eu gwneud o'i fudd-daliadau, lle roedd disgwyl iddo dalu £9 ohono yr wythnos yn ychwanegol i'w rent, ac felly roedd mewn perygl o ddiffyg maeth. Roedd yr eiddo yr oedd wedi symud iddo yn damp ac roedd angen nifer o atgyweiriadau.

## Sefydliad:-ADREF

### Prosiect:-Newstart

**Cymorth a Gafwyd:-** Roedd y defnyddwyr gwasanaeth wedi cael cymorth i wneud atgyweiriadau a oedd eu hangen yn yr eiddo. Cafodd help hefyd i wneud y gorau o'i fudd-daliadau, gan ei bod yn glir y dylai fod yn cael ESA yn ogystal â PIP oherwydd ei gyflyrau meddygol a oedd yn cynnwys DVT a oedd yn ei atal rhag mynd o gwmpas yn dda iawn. Cafodd y defnyddiwr gwasanaeth gymorth hefyd i fynd i'r afael â'i ymddygiad troseddu a phroblemau camddefnyddio alcohol, er mwyn ei gadw allan o'r ddalfa a chadw ei gartref presennol. Cafodd JJ gymorth ar sawl achlysur i gael cymorth meddygol brys ar ôl cwmpo yn ei gartref.

#### Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-

- **Teimlo'n Ddiogel / Cyfrannu at ddiogelwch a lles eich hun ac eraill**  
Yn ystod y cyfnod cymorth, cafodd JJ ei dargedu gan unigolion yn ei ardal, a oedd yn ceisio ei ddarbwylllo i'w gadael yn ei gartref, ac roedd hyn yn achosi problemau gyda'i denantiaeth. Roedd hefyd yn cael effaith negyddol ar faint o alcohol yr oedd yn ei yfed gan ei fod yn yfed mwy oherwydd straen. Llwyddodd TSO i gael cytundeb gan yr heddlu lleol i gadw llygad ar yr eiddo, er mwyn helpu JJ i warchod ei gartref. Gyda chymorth TSO, llwyddodd JJ i sobri ar nifer o achosion, a arweiniodd ato yn y pen draw i roi'r gorau i yfed alcohol.
- **Rheoli Llety / Rheoli Perthnasau / Teimlo'n rhan o'r Gymuned**  
Helpodd TSO JJ i roi gwybod am atgyweiriadau a oedd angen eu gwneud yn yr eiddo, a'u cwblhau i'w foddhad. Ar yr un pryd, diolch i gynnydd yn ei incwm, roedd JJ yn gallu clirio ei ôl-ddyledion rhent ac mewn lle gwell i reoli ei rent ychwanegol yn ystod ei gyfnod yn y denantiaeth.
- **Rheoli Arian / Cymryd rhan mewn Addysg neu Ddysgu / Cymryd rhan mewn Cyflogaeth neu Wirfoddoli**  
Yn ystod ei gyfnod o gymorth, drwy ymdrechion a dyfalbarhad ei TSO, cynyddodd ei incwm o £55 yr wythnos i £342 yr wythnos. Dylid nodi hefyd bod KS wedi cael cyfandaliadau o ESA, PIP a SDP a oedd yn hafal i dros £10,000. Gwnaeth hyn ddatrys ei holl broblemau ariannol.

- **Iach yn Gorfforol / Iach yn Feddyliol / Byw Bywyd Iach ac Actif**

Yn ystod ei gyfnod cymorth, roedd JJ mewn cyflwr iechyd gwael oherwydd yr alcohol yr oedd yn ei yfed a'r problemau yn sgil DVT. Roedd TSO yn gallu helpu JJ drwy fynd gydag ef i'w apwyntiadau meddygol ac eirioli ar ei ran i gael ei gyfeirio at weithwyr iechyd proffesiynol. Dylid nodi fod y TSO wedi cyfeirio ac yna mynychu apwyntiadau CDAT a CMHT JJ gydag ef. Yn ôl ei eiriau ei hun, ni fyddai JJ wedi mynychu'r rhain heb i TSO fynd gydag ef.

**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Mae JJ yn awyddus nawr i symud eiddo i denantiaeth well, ac mae TSO wedi cael rhodd gan Ymddiriedolaeth Talisman o £800 i'r perwyl hwn. Bydd hyn yn caniatáu iddo dalu bond a rhent ymlaen llaw. Nid yw JJ yn yfed alcohol ar hyn o bryd ac mae'n awyddus i sicrhau ei fod yn parhau i gael y driniaeth gywir ar gyfer ei anableddau corfforol.

Hyd amser y cymorth: 22 mis. Cost Cefnogi Pobl: Tua

**£18,000**

## **Atal:-**

- Anti-social behaviour (costs the Police and Local Authority approximately **£500** per incident\*)
- Offending (one year in prison costs the Criminal Justice System approximately **£3,785\***)
- Homelessness advice & Support (Costs Local Authorities **£642** on average per use per scheme\*)
- Alcohol Misuse (costs the NHS approximately **£1800** per annum per dependent drinker\*)
- A&E attendance (costs the NHS in excess of **£109** per visit\*)
- Hospital Inpatients (costs the NHS an average of **£1807** per person, per episode\*)
- Ambulance Services (costs the NHS **£216** per call-out\*)
- Adult mental health – depression/anxiety (costs the NHS **£830** per person per annum\*)
- Mental Health Inpatients (costs the NHS **£429** per bed, per day\*)
- Mental Health Outpatients (costs the NHS **£140** per attendance\*)
- Adults with physical difficulties in residential care (Costs Local Authorities **£829** per week per bed\*)

\*(These potential cost savings have been estimated using the Unit Cost Database Version 1.4 created by the New Economy Greater Manchester which can be accessed at: <http://www.neweconomymanchester.com/our-work/research-evaluation-cost-benefit-analysis/cost-benefit-analysis/unit-cost-database>



## **Pobl Unigol ag anghenion cymorth**

### **Manylion Personol:- ‘BC’, Oedran 34, Merthyr Tudful.**

Sefyllfa ac anghenion cymorth presennol: Mam sengl gyda phroblemau iechyd corfforol a meddyliol. Nid oedd yn cymryd ei meddyginiaeth a ragnodwyd ar gyfer ei chyflyrau ac nid oedd yn delio ag unrhyw faterion yn ei chartref. Roedd BC yn byw mewn eiddo rhent preifat a chafodd rhybudd troi allan gan nad oedd wedi talu rhent am bron i flwyddyn. Roedd y broses troi allan wedi mynd yn rhy bell ac nid oedd modd arbed tenantiaeth BC. Nid oedd gan BC unrhyw fudd-daliadau personol na thai.

**Hanes Personol:-** Roedd perthynas BC wedi dod i ben a symudodd i lety rhent preifat gyda'i merch 11 oed. Nid oedd BC wedi cynnal ei thenantiaeth ei hun erioed. Roedd mewn cyflogaeth ar gontract dim oriau ac nid oedd yn gwybod y gallai wneud cais am fudd-daliadau. Nid oedd BC yn deall bod cymorth ar gael a allai ei helpu gyda'i phroblemau tenantiaeth. Roedd ganddi ôl-ddyledion rhent a daeth yn isel ei hysbryd ac yn orbryderus felly dechreuodd yfed alcohol i ymdopi. Nid oedd yn gadael y tŷ felly collodd ei swydd. Gwnaeth gais am Lwfans Ceisio Gwaith ond oherwydd ei hiechyd meddwl nid oedd yn mynd i unrhyw apwyntiadau gyda'r ganolfan waith felly cafodd ei thaliadau personol a thai eu hatal ac yna eu canslo. Roedd iechyd BC yn parhau i ddirywio ac felly stopiodd gymryd ei meddyginiaeth i gyd. Roedd BC yn ceisio cynnal ei chartref ar Fudd-dal Plant a Chredyd Treth Plant. Nid oedd wedi talu rhent am bron i flwyddyn ac roedd y landlord wedi rhoi rhybudd troi allan. Ffoniodd cyfaill i BC Adref yn gofyn am gymorth/cyngor.

**Cymorth a Gafwyd:-** Cafodd BC gymorth i wneud cais am fudd-dal personol perthnasol a gwneud cais digartref. Cafodd BC ei hannog a'i chefnogi i aildrefnu gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a roddodd meddyginiaeth iddi a thystysgrif feddygol ar gyfer ei chais am Lwfans Cymorth Cyflogaeth (ESA). Helpodd AR i gyd-drafod ynghylch tai er mwyn canfod llety addas cyn y dyddiad troi allan. Yn anffodus, ni chafwyd eiddo arall erbyn y dyddiad troi allan felly roedd yn rhaid i BC fynd i wely a brecwast ac aeth ei merch i aros gyda'i thad. Cafodd BC gymorth i ganfod lle i storio ei holl eiddo hi a'i merch. Parhaodd BC a'i Swyddog Cymorth Tenantiaeth (TSO) i fynd ar ôl cymdeithasau tai a thai ar gyfer eiddo addas. Ychydig wythnosau yn ddiweddarach cafodd BC eiddo mewn ardal yr oedd am fyw ynddi. Cafodd BC gymorth i arwyddo am ei thenantiaeth, gwneud cais am fudd-dal tai a sefydlu'r denantiaeth newydd. Cafodd BC gymorth i wneud cais am Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) ar gyfer eitemau blaenoriaeth ac roedd y cais yn llwyddiannus. Cafodd BC gymorth i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP) ar gyfer ei phroblemau iechyd corfforol a meddyliol. Cafodd y gyfradd uchaf ar gyfer gofal a symudedd. I ddechrau, cafodd budd-dal ESA BC ei wrthod ar ôl ei hasesiad meddygol. Cafodd BC gymorth i apelio'r penderfyniad ac ar ôl aros yn hir enillodd yr apêl ac mae bellach yn y grŵp cymorth ESA ac mae ei thaliadau budd-dal wedi'u hôl-ddyddio. Mae BC wedi ymgartrefu yn ei heiddo newydd y mae hi wrth ei bodd ag ef. Mae hi'n rheoli ei materion ariannol ac yn teimlo'n fwy hyderus wrth delio â thasgau bob dydd yn ogystal â'i phroblemau meddygol.

### Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-

- Teimlo'n Ddiogel / Cyfrannu at ddiogelwch a lles eich hun ac eraill  
Llety diogel iddi hi a'i merch. Mae'r ferch bellach yn mynychu ysgol ac yn cael cinio ysgol am ddim
- Rheoli Llety / Rheoli Perthnasau / Teimlo'n rhan o'r Gymuned  
Sefydlu llety, pob bil blaenoriaeth wedi'i sefydlu, dyfarnwyd dodrefn, mynd i'r afael â'r post a mynd i apwyntiadau.
- Rheoli Arian / Cymryd rhan mewn Addysg neu Ddysgu / Cymryd rhan mewn Cyflogaeth neu Wirfoddoli  
Budd-daliadau perthnasol ar waith, cynlluniau talu ar waith i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion yn y gorffennol.
- Iach yn Gorfforol / Iach yn Feddyliol / Byw Bywyd Iach ac Actif  
Mewn cysylltiad â gweithwyr meddygol proffesiynol i gael cymorth, cymryd meddyginiaeth a ragnodwyd i helpu.

**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Mae BC am reoli'n annibynnol a chadw trefn ar ei biliau a'i hól-ddyledion. I reoli ei hiechyd, i allu dod o hyd i gyflogaeth yn y dyfodol a bod yn fam dda.

Hyd amser y cymorth: 11 mis Cost Cefnogi Pobl: tua **£5,000**.

### Prevention:-

- A&E attendance (costs the NHS in excess of **£109** per visit\*)
- Hospital Inpatients (costs the NHS an average of **£1807** per person, per episode\*)





## Pobl Ifanc (16-24 oed)

### Manylion Personol:- DE, 19, RCT

**Hanes Personol:-** Roedd DE wedi ymddieithrio o'i deulu ar ôl tor-perthynas. Roedd yn ddi-waith a chafodd lle mewn HMO yn ddiweddar a oedd mewn cyflwr gwael. Roedd DE yn teimlo'n agored i niwed yn rhannu â rhywun oedd wedi gadael carchar a oedd wedi ymosod yn gorffennol â chyd-denant. Roedd llifogydd yng nghegin yr eiddo ar Ddiwrnod Nadolig. Roedd DE yn ansicr o'i hawl am fudd-dal tai / treth gyngor. Nid oedd DE yn dda iawn yn cyllidebu ac yn ddi-waith.

### Cymorth a Gafwyd:-

Trosolwg o'r cymorth a gafwyd mewn cysylltiad â thai.

- 1 Cymorth a chefnogaeth i gyd-drafod â'r Cyngor, Canolfan Cyngor Tai ac asiant landlordiaid ynghylch cyflwr yr eiddo.
- 2 Cymorth ac anogaeth i DE gyfathrebu â'r Adran Budd-dal Tai pan fydd newid mewn amgylchiadau.
- 3 Cymorth i gwblhau ceisiadau budd-dal tai priodol.
- 4 Cymorth i gwblhau a chyflwyno cais tai newydd ar gyfer tai cymdeithasol.
- 5 Anogaeth i ddilyn cynllun cyllidebu y cytunwyd arno i sicrhau y telir am gostau cartref.

### Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-

- Teimlo'n Ddiogel / Cyfrannu at ddiogelwch a lles eich hun ac eraill  
Yn dilyn cymorth, symudodd DE i lety llawer gwell lle'r oedd yn teimlo'n fwy diogel.
- Rheoli Llety / Rheoli Perthnasau / Teimlo'n rhan o'r Gymuned  
Gwnaeth DE drafod yn annibynnol yn ddiweddar â landlord preifat a symudodd i lety rhent preifat fforddiadwy mewn ardal o'i ddewis gyda'i bartner. Mae bellach yn rheoli ei denantiaeth ei hun gyda chymorth
- Rheoli Arian / Cymryd rhan mewn Addysg neu Ddysgu / Cymryd rhan mewn Cyflogaeth neu Wirfoddoli  
Yn dilyn cyfeirio a chynghor cafodd DE ad-daliad treth o £200.00. Nid yw DE yn ddibynnol ar fudd-daliadau mwyach. Cafodd Grant Gweithredu dros Blant i brynu offer a dillad diogelwch. Mae DE bellach yn gyflogedig 5 diwrnod yr wythnos gyda chwmni adeiladu a gweithio rhai penwythnosau yn is-gontractio i Network Rail. Mae'n rheoli ei faterion ariannol yn annibynnol ac yn sicrhau bod yr holl gostau cartref yn cael eu talu yn dilyn cynllun cyllidebu.
- Iach yn Gorfforol / Iach yn Feddyliol / Byw Bywyd Iach ac Actif  
Amherthnasol

**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Nod hirdymor DE unwaith y bydd wedi cael digon o brofiad yw dod yn hunangyflogedig a sicrhau morgais gyda'i bartner sydd hefyd mewn cyflogaeth llawn amser. Mae newydd basio ei brawf gyrru theori ac wrthi'n cael gwersi gyrru a fydd yn agor opsiynau cyflogaeth pellach iddo. Hyd amser y cymorth: 12 mis

Cost Cefnogi Pobl **£642**

## Grŵp Cleient Pobl ifanc 16-24 oed

### Manylion Personol:- FG, 19 oed, Rhondda Cynon Taf

**Hanes Personol:-** Cafodd FG ei rhoi yn y Grange ar 12/07/2016 ac ni chafodd ei hystyried yn achos blaenoriaeth felly ceisiodd staff sicrhau bod FG yn gallu gwneud cais am eiddo cyn gynted ag yr oeddent ar gael. Nid oedd FG mewn unrhyw ffurf o addysg neu hyfforddiant ac roedd yn ymddangos yn ddi-gyfeiriad ac yn ddiobaith o ran ble yr oedd hi'n mynd o fan hyn.

**Cymorth a Gafwyd:-** Gwnaed apwyntiad brys fel y gallai FG ddechrau ymgeisio ar y system am eiddo cymwys.

### Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-

- Teimlo'n Ddiogel / Cyfrannu at ddiogelwch a lles eich hun ac eraill: Cafodd FG ystafell yn y Grange lle roedd hi'n teimlo'n ddiogel a dechreuodd feithrin perthnasau gyda phreswylwyr eraill.
- Rheoli Llety / Rheoli Perthnasau / Teimlo'n rhan o'r Gymuned: Mae FG wedi symud yn ddiweddar i'w heiddo ei hun, chafodd gymorth i wneud cais am daliad cymorth dewisol ac felly wedi cael eitemau dodrefn sylfaenol. Gwnaeth hefyd gysylltu â siopau elusen lleol i gael eitemau nad oeddent yn rhan o'r taliad dewisol.
- Rheoli Arian / Cymryd rhan mewn Addysg neu Ddysgu / Cymryd rhan mewn Cyflogaeth neu Wirfoddoli: Cafodd FG gymorth i wneud cais am fudd-daliadau a chymorth i wneud cais am Fudd-dal Tai. Gan fod FG yn teimlo'n isel a bod staff yn teimlo bod angen i FG fagu ei hunanhyder, awgrymwyd y byddai'n syniad da pe gallai cael lle ar gwrs Ymddiriedolaeth y Tywysog yn Nhonyrefail. Ers i FG gwblhau'r cwrs gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog maent wedi cynnig rôl iddi fel mentor. Gyda chymorth, gwnaeth FG ddatrys cynllun ad-dalu isel iawn i Wonga yr oeddent wedi tynnu ei holl arian o'i chyfrif ar y diwrnod cyntaf aeth ei budd-daliadau i'w chyfrif banc.
- Iach yn Gorfforol / Iach yn Feddyliol / Byw Bywyd Iach ac Actif: Ers mynd i'r Grange mae hunanhyder FG wedi tyfu ac mae wedi datblygu agwedd gadarnhaol ac mae'n unigolyn hyderus iawn a oedd angen cymorth i fynd yn ôl ar y trywydd iawn ac roedd angen cyfeiriad arni i gyflawni ein nodau.

**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Ers i FG symud allan mae'n dechrau adeiladu ei chartref newydd ac mae hi wir yn mwynhau byw'n annibynnol. Gofynnwyd i FG fynd yn ôl i Ymddiriedolaeth y Tywysog i ddod yn fentor ac mae wedi cynnig lle ar gwrs hyfforddiant er mwyn gallu hyfforddi pobl ifanc eraill. Hyd amser y cymorth: 5 wythnos

### Prevention:-

- Complex eviction (Costs Local Authorities or Registered Social Landlords **£6680** on average per eviction)
- Homelessness advice and support (Costs Local Authorities approximately **£642** per person per scheme).

## Manylion Personol:- ‘HI’, 21 oed, Merthyr Tudful

**Hanes Personol:-** Cyn cyrraedd yr hostel, roedd gan HI fywyd ansefydlog. Pan roedd yn 16 oed bu farw ei dad. Yna cafodd un denantiaeth aflwyddiannus ei hun cyn mynd i fyw gyda’i fam. Yna torrodd eu perthynas a daeth yn ddigartref eto. Roedd gan HI broblemau iechyd meddwl pryderus a’i brif nod oedd ail-ymgysylltu â’r gwasanaethau iechyd.

**Cymorth a Gafwyd:-** Cafodd HI gymorth i ddysgu sgiliau byw ymarferol gan gynnwys cyllidebu a thasgau domestig. Cafodd gymorth i ddilyn cwrs coginio ar gyllideb deg wythnos. Cafodd HI gymorth i fynd i gyfarfodydd mewnol a fyddai’n helpu ei hyder gyda phobl eraill. Cafodd HI gymorth i ymuno â thîm pêl-droed SFW Adref i’w helpu gyda’i iechyd meddwl yn ogystal â’i ffitrwydd cyffredinol. Cafodd HI gymorth i gael budd-daliadau. Cafodd HI gymorth i gyllidebu ei hincwm er mwyn iddo allu cefnogi ei hun yn ariannol ar incwm isel. Cafodd HI gymorth i gofrestru â meddyg teulu a chymorth i fynd i asesiad iechyd meddwl. Cafodd HI gymorth i fynd ar Gwrs Tenantiaeth OCN. Cafodd gymorth am hyfforddiant a chyflogaeth. Cafodd gymorth i reoli ei dymer.

### Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-

- Teimlo’n Ddiogel / Cyfrannu at ddiogelwch a lles eich hun ac eraill: Mae HI wedi gwneud ffrindiau gyda’i dîm pêl-droed ac mae hyn, yn ei dro, wedi gwella ei statws cymdeithasol i fyw yn y gymuned. Gwnaeth pêl-droed helpu HI i wella ei iechyd meddwl a’i ffitrwydd cyffredinol ac mae’n parhau i gymryd rhan.
- Rheoli Llety / Rheoli Perthnasau / Teimlo’n rhan o’r Gymuned: Cafodd HI gymorth i fynd ar Gwrs Tenantiaeth OCN a roddodd cymhwyster a sgiliau iddo fod yn barod ar gyfer tenantiaeth.
- Rheoli Arian / Cymryd rhan mewn Addysg neu Ddysgu / Cymryd rhan mewn Cyflogaeth neu Wirfoddoli: Cafodd HI gymorth a gwybodaeth a chynghor i wneud y gorau o’i incwm i wneud cais am PIP. Cyfeiriodd HI at y prosiect Cymunedau i Waith i gael cymorth gyda hyfforddiant/cyflogaeth. Cafodd gymorth i fynd ar gwrs hylendid bwyd.
- Iach yn Gorfforol / Iach yn Feddyliol / Byw Bywyd Iach ac Actif: Mae HI wedi ail-ymgysylltu bellach â’r gwasanaethau iechyd, wedi cofrestru â’r meddyg lleol ac yn cael meddyginiaeth newydd. Mae iechyd meddwl HI wedi gwella llawer. Cafodd gymorth i fynd ar gwrs rheoli tymer ac mae bellach yn rheoli ei dymer.

**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Ers i HI symud i lety â chymorth gyda Chartref Merthyr Tudful, mae wedi parhau i gymryd rhan yn nhîm pêl-droed yr hostel a byth yn colli sesiwn hyfforddiant na diwrnod gêm. Mae HI wedi ennill cwpan ar hyd y ffordd (Cwpan Hafel) heb sôn am ei ymrwymiad yn y gynghrair lle cafodd fedal am gymryd rhan drwy gydol y flwyddyn. Mae hyder HI wedi tyfu ac mae’n teimlo’n barod i sefyll ar ei ddwy droed yn y gymuned ac mae’n parhau i edrych am gyflogaeth llawn amser.

Hyd amser y cymorth: Pedwar Mis. Cost Cefnogi Pobl: Tua **£6000**

## Prevention:-

- Mental Health Specialist Services (Cost the NHS and Local Authorities **£1866** per annum per service user).



## **Gwasanaethau tymor hir Grŵp Cleient Anableddau Dysgu Manylion Personol:- 'JK', oed 22, Merthyr Tudful.**

Byw'n annibynnol gyda 25 awr cymorth - DRIVE.

**Manylion Personol:-** Roedd JK yn byw gyda'i thad a'i llys-mam a chwaer iau yn ardal Merthyr

Nid oedd gan JK lawer o annibyniaeth ac roedd yn ddibynnol iawn ar ei mam a thad am nifer o bethau. Roedd rhieni JK am symud o'r ardal ac roedd JK am aros ym Merthyr. Felly cafodd ei hatgyfeirio i Drive i gael cymorth gyda byw.

Symudodd JK i dy â chymorth lle roedd tair menyw arall eisoes yn byw. Roedd gan y cartref gefnogaeth 24 awr (a oedd yn cynnwys staff yn cysgu mewn) rhwng y menywod. Tra'n byw yn y cartref â chymorth, dysgodd JK sgiliau byw hanfodol, gan gynnwys coginio, deall arian a sut i ofalu am ei hun. Bu JK yn byw yn y cartref hwn am 2 flynedd, yna dechreuodd gynllunio i symud i gartref byw'n annibynnol. Symudodd JK i dŷ yn yr ardal leol gyda chyfaill. Roedd angen llai o gymorth ar y menywod hyn ac nid oedd angen gofal dros nos. Yn ddiweddar cyflawnodd JK ei nod o fyw'n gwbl annibynnol ac mae ganddi ei fflat ei hun ym Merthyr.

### **Cymorth a Gafwyd:-**

- Cynllunio a chyllidebu ar gyfer siopa wythnosol a phryniannau/gwariant eraill
- Cymorth i roi gwybod am faterion cynnal a chadw/trefnu atgyweirio pethau yn y cartref
- Cymorth gyda chyllid, rheoli budd-daliadau a thalu biliau
- Cymorth emosiynol i ymgartrefu mewn llety newydd
- Cymorth i reoli materion tenantiaeth h.y. ôl-ddyledion rhent ac ymwelwyr amhriodol
- Iechyd a lles, cyfeirio a chymorth i unrhyw wasanaethau sydd eu hangen e.e. meddyg, optegydd, deintydd
- Cynllunio digwyddiadau a gwyliau
- Canllaw o ran diogelwch y cartref a pha weithdrefnau i'w dilyn wrth adael rhywun i mewn i'r fflat

### **Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-**

- Teimlo'n Ddiogel / Cyfrannu at ddiogelwch a lles eich hun ac eraill: Roedd wedi cysylltu â Life Line yn flaenorol, ond yn llety presennol JK roedd yn teimlo'n ddigon diogel i ond cael rhif brys ar gyfer y tŷ byw â chymorth yr oedd JK yn arfer byw ynddo. Mae gan JK gysylltiadau cymunedol da ac yn adnabod llawer o bobl. Mae JK yn gwirfoddoli gyda chlwb ieuenctid lleol. Mae gan JK wybodaeth dda am ddiogelwch yn y cartref. Gall staff gefnogi JK gyda hyn pan fydd angen.
- Rheoli Llety / Rheoli Perthnasau / Teimlo'n rhan o'r Gymuned: Mae annibyniaeth a hyder JK wedi tyfu'n aruthrol dros y 3 blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae angen peth anogaeth a chymorth ar JK o hyd, er enghraifft i roi gwybod am faterion cynnal a chadw. Mae gan JK bresenoldeb cymunedol y mae staff Drive wedi cynyddu dros y 3 blynedd diwethaf. Mae JK yn dda iawn am gynnal perthnasau gyda'i ffrindiau a'i chydweithwyr yn y prosiect ieuenctid



- Rheoli Arian / Cymryd rhan mewn Addysg neu Ddysgu / Cymryd rhan mewn Cyflogaeth neu Wirfoddoli: Mae JK wedi datblygu ei sgiliau yn rheoli arian. Gwella annibyniaeth ynghylch sut mae'n talu ei biliau ac yn rheoli ei harian o ddydd i ddydd. Mae gan JK ei chyfrif banc personol ei hun gyda cherdyn a PIN y mae'n eu defnyddio'n annibynnol. Mae JK yn cymryd rhan mewn nifer o gyfleoedd gwirfoddoli gydag amryw sefydliadau yn ei chymuned leol. Mae JK wedi cadw cysylltiad agos ac yn parhau i fynd i glybiau datblygu sgiliau yn agos i'w chyfeiriad blaenorol
- Iach yn Gorfforol / Iach yn Feddyliol / Byw Bywyd Iach ac Actif: Mae JK wedi datblygu ei hymwybyddiaeth a'i hyder i fynd i apwyntiadau iechyd rheolaidd yn annibynnol. Mae angen cymorth o hyd ar JK i fynd i rai apwyntiadau meddygol mwy cymhleth. Mae JK wrthi'n dilyn rhaglen addysgu sgiliau i ddatblygu ei sgiliau a'i hyder i gymryd meddyginiaeth ei hun. Mae JK wedi trefnu grŵp cerdded, y mae wedi hysbysebu drwy wefan Drive. Trefnodd JK a'i staff grŵp i gymryd rhan yn y Race for Life

**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Mae JK yn teimlo ei bod wedi cyflawni popeth yr oedd yn gobeithio mewn cysylltiad â'i sefyllfa tai. Mae'n bwriadu byw yn ei fflat newydd am y dyfodol rhagweladwy.

Nid yw JK yn teimlo ei bod am chwilio am waith cyflogedig newydd, ond hoffai i'w rôl gyda MTIB ddatblygu i fod yn waith cyflogedig. Mae JK yn teimlo, yn y dyfodol agos, y gallai reoli ei chartref gyda llai o oriau staff, ond nid yw'n teimlo y gallai ymdopi heb unrhyw gymorth. Hoffai JK barhau i gymryd rhan mewn cysiau hyfforddiant yn Drive a hwyluso'r cysiau hynny. Hoffai gymryd rhan mewn cysiau eraill. Mae JK yn bwriadu cymryd rhan yn Race for Life Ymchwil Canser bob blwyddyn

Hyd amser y cymorth: 3 mlynedd. Cost Cefnogi Pobl: tua **£35000.**





## Pobl Hŷn

**Manylion Personol:-** LM, oedran 60, Rhondda Cynon Taf.

**Sefydliad:-** Trivallis. **Prosiect:-** SAFE

Mae gan LM anawsterau llythrennedd, cymorth gyda budd-daliadau lles a chyflwr eiddo

**Hanes Personol:-** Llythrennedd gwael iawn, dim dŵr, gwres na thrydan yn yr eiddo. Wedi bo dyn bwyta o finiau ac yn mynd â chŵn am dro am ychydig bunnoedd yr wythnos. Mae ganddo ddyledin gyda Dŵr Cymru ac mae rhywun wedi dwyn pibell copr o'i gartref. Mae'n berchennog preswyl. Cymorth i wneud cais am grant NYTH. Cymorth i wneud cais am grant gwella awdurdod lleol. Cymorth i wneud cais am fenthyciad argyfwng. Cymorth i wneud cais am ESA. Cymorth i wneud cais i ofal a thrwsio. Cymorth i wneud cais i ailgysylltu nwy a thrydan. Cymorth i wneud cais am fudd-dal cyngor. Cymorth i wneud cais am docyn bws. Cymorth i wneud cais am gredyd pensiwn

### Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-

- ESA £73.10. Dyfarnwyd cerdyn bws. Cyfleustod ar waith. System gwresogi newydd wedi'i gosod. Cyflenwad dŵr a phibellau wedi'u cysylltu, dyled Dŵr Cymru wedi'i ddileu. Grant wedi'i gael ar gyfer ffenestr a drws newydd ac ystafell ymolchi a thŷ bach

**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Un paragraff (50 gair) Mae'r cartref bellach yn gynnes a diogel, mae ganddo incwm rheolaidd felly mae'n bwyta'n dda ac yn gallu cynnal a gwella iechyd a lles cyffredinol

## Prevention:-

- Job Seekers Allowance (costs the DWP **£9800** per person per annum)
- Hospital Admissions (cost the NHS approximately **£1800** per episode)



## Pobl Hŷn

### Manylion Personol:- 'NO', Rhondda Cynon Taf

**Hanes Personol:-** Cafodd ei gyfeirio at dîm safe gan awdurdod tai. Rhoddwyd hysbysiad gwaharddiad ar ôl tân yn yr eiddo a phroblemau parhaus gyda chyflwr yr eiddo. Nid oedd wedi cael cymorth yn flaenorol. Ymatebodd NO yn dda i weithiwr cymorth benywaidd. Pryderon ynghylch colli cof a hanes blaenorol o gamddefnyddio alcohol ond nid oedd tystiolaeth gyfredol i ddangos bod hyn yn broblem ar hyn o bryd.

**Cymorth a Gafwyd:-** Cymorth i fynd i swyddfa dai i gofrestru'n ddigartref

Atgyfeiriadau at MIND a Shelter

Cymorth i ganfod gwely a brecwast argyfwng

Cymorth i fynd i apwyntiad meddyg teulu

Cymorth i reoli gwaith papur

Cymorth i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gynnal annibyniaeth

Perthnasau cymorth wedi'u sefydlu'n gadarn gydag ymgysylltiad da

Cymorth i symud i hostel â chymorth gyda thenantiaeth o 3 mis

**Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-**

Feeling Safe / Contributing to the safety and wellbeing of others:- NO now has safe and secure accommodation.

**Physically healthy:-** Llety diogel, cynnal annibyniaeth ac iechyd

**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Mae NO yn cael cymorth yn yr hostel bellach, sy'n gallu gweithio gyda NO dros gyfnod o 3 mis i'w gefnogi i ddeall a chynnal tenantiaeth a chartref.

Hyd amser y cymorth: 4 wythnos

## Prevention:-

- Anti-social behaviour (costs local authorities **£500** per incident)
- Moving Off benefits (JSA costs the DWP **£9800** per annum per beneficiary)
- Homeless application (costs local authorities **£2501** per application)
- Homelessness advice and support (costs local authorities **£642** per person)
- Alcohol misuse (costs the NHS **£1800** per annum, per dependent drinker)
- Adult mental health (depression and anxiety) (Costs the NHS approximately **£830** per person per annum)
- Other mental health (Including dementia) (costs the NHS and local authorities **£1866** per person per annum)

## Pobl Hŷn

### Manylion Personol:- PQ, 57, Merthyr Tudful

**Sefyllfa ac anghenion cymorth presennol:-** Byw mewn llety anaddas, problemau iechyd meddwl, dibynnol ar alcohol ac yn esgeulus o'i anghenion meddygol niferus.

**Hanes Personol:-** Cyn cymryd rhan gydag Age Connects Morgannwg, roedd PQ yn byw mewn fflat ar yr ail lawr, ac oherwydd ei iechyd gwael nid oedd yn addas i'w anghenion mwyach. Roedd y grisiau at y fflat ynghyd â nifer o gamau yn arwain at yr eiddo yn achosi problemau sylweddol i PQ, gan arwain at nifer o gwympiadau ac nid oedd PQ yn teimlo'n ddiogel yn cael mynediad i'w gartref. Roedd straen hyn a diffyg rhyngweithio gyda ffrindiau arwain at ddirywiad yn ei iechyd meddwl a dibyniaeth gynyddol ar alcohol. Gwnaeth hyn, yn ei dro, waethygu ei gyflyrau meddygol a phroblemau gyda'r cof, a oedd yn golygu nad oedd PQ yn cadw at ei apwyntiadau meddygol ac apwyntiadau gyda'r tîm iechyd meddwl.

**Cymorth a Gafwyd:-** Gan weithio ochr yn ochr â'i weithiwr achos Drugaid, cafodd PQ gymorth i fynd i apwyntiadau meddygol, iechyd meddwl a Drugaid. Arweiniodd hyn at welliant dramatig o ran faint o alcohol roedd PQ yn yfed – gan hyd yn oed dorri alcohol allan yn gyfangwbl am nifer o fisoedd, a arweiniodd at welliant sylweddol yn ei iechyd meddwl a chof. Cafodd PQ gymorth gan ei weithiwr cymorth Age Connects i symud i fyngalo mewn ardal o Ferthyr yr oedd bob amser eisiau byw ynddi, ac yn agosach at rwydwaith da o deulu a ffrindiau. Gan fod ganddo ardd bellach, roedd PQ yn gallu cadw ci – sef rhywbeth yr oedd bob amser am ei wneud. Arweiniodd hyn at wella ei les ac iechyd corfforol oherwydd ei fod yn gwneud mwy o ymarfer corff.

### Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-

- Teimlo'n Ddiogel / Cyfrannu at ddiogelwch a lles eich hun ac eraill  
Mae perygl o PQ i syrthio wedi lleihau'n sylweddol, ac mae'n teimlo'n llawer mwy diogel yn ei gartref.
  - Rheoli Llety / Rheoli Perthnasau / Teimlo'n rhan o'r Gymuned  
Symudodd PQ i eiddo addas, mae'n cynnal ei lety yn annibynnol ac mae ei unigrwydd cymdeithasol wedi lleihau gan ei fod yn agosach i'w rwydwaith cymorth.
  - Rheoli Arian / Cymryd rhan mewn Addysg neu Ddysgu / Cymryd rhan mewn Cyflogaeth neu Wirfoddoli
- 
- Iach yn Gorfforol / Iach yn Feddyliol / Byw Bywyd Iach ac Actif  
Gwnaeth iechyd corfforol a meddyliol PQ wella'n sylweddol, gan ei fod yn llawer mwy actif nawr ac yn cael cymorth gyda'i alcohol.

**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Mae PQ yn cynnal ei lety ac wedi ymgartrefu'n braf. Mae'n dal i fynd i apwyntiadau meddygol gyda chymorth ac yn gobeithio aros yn ei fyngalo am weddill ei fywyd.

Length of time supported & Cost to Supporting People:- Two years and **£5500**

## Prevention:-

- Temporary accommodation (Costs local authorities **£107** per week)
- Alcohol Misuse (costs the NHS **£1800** per year per dependence drinker)
- A&E attendance (Costs the NHS **£109** per incident)
- Hospital Day care (Costs the NHS **£698** per person per episode)
- Ambulance Service (Costs the NHS **£216** per person per incident)
- Mental Health Specialist Services (Costs the NHS **£1866** per person per year)



## Pobl Hŷn

### Manylion Personol:- 'TU', 79, Merthyr Tudful

**Sefyllfa ac anghenion cymorth presennol:-** Mewn perygl o gael ei droi allan o fflat rhent preifat, wedi gwahanu o'i wraig yn ddiweddar ar ôl i'r heddlu gael eu cynnwys oherwydd ymddygiad bygythiol.

**Hanes Personol:-** Dychwelodd TU i Ferthyr Tudful ar ôl gwahanu o'i wraig. Roedd ymddygiad TU yn anwadal. Roedd wedi bod yn y llys am fygwth ei wraig gyda chylllell ac wedi gorfod talu dirwy mawr. Symudodd i fflat rhent preifat anaddas ym Merthyr ond roedd mewn perygl o gael ei droi allan am gronni ôl-ddyledion rhent ar ôl ychydig fisoedd yn unig. Cafodd TU ei gyfeirio gan werthwr tai lleol am eu bod yn bryderus iawn amdano.

**Cymorth a Gafwyd:-** Cafodd TU gymorth gan Age Connects Morgannwg i wneud cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin a gwneud cais am eiddo. Cafodd gynnig fflat un ystafell mewn canolfan loches yn gyflym, a chafodd gymorth i wneud cais am fudd-dal tai rhannol a budd-dal y dreth gyngor. Roedd TU wedi dechrau cronni ôl-ddyledion rhent eto, felly cafodd gymorth i drefnu bod taliadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r gymdeithas dai. Gwnaeth Age Connects Morgannwg helpu TU yn llwyddiannus i wneud cais am Lwfans Gweini lle cafodd y gyfradd uchaf. O ganlyniad, roedd hawl ganddo i gael swm bach o Gredyd Pensiwn, a arweiniodd at gynnydd yn ei fudd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor. Yna cafodd TU ad-daliad mawr o'i gyfrif rhent gan nad oedd ei ddebyd uniongyrchol wedi'i addasu i adlewyrchu'r newidiadau mewn budd-daliadau, a thalodd ei holl gostau llys wrth iddo gael cymorth.

### Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-

- Teimlo'n Ddiogel / Cyfrannu at ddiogelwch a lles eich hun ac eraill  
Mae TU yn teimlo'n ddiogel yn ei fflat nawr ac nid oes ofn ganddo gael ei droi allan mwyach.
- Rheoli Llety / Rheoli Perthnasau / Teimlo'n rhan o'r Gymuned  
Symudodd TU i eiddo addas lle mae wrth ei fodd ac wedi gwneud nifer o ffrindiau.
- Rheoli Arian / Cymryd rhan mewn Addysg neu Ddysgu / Cymryd rhan mewn Cyflogaeth neu Wirfoddoli  
Mae incwm TU ar ei fwyaf ac mae'n trin ei faterion ariannol yn annibynnol.
- Iach yn Gorfforol / Iach yn Feddyliol / Byw Bywyd Iach ac Actif  
Mae TU yn byw dros y ffordd i'w feddyg lleol ac mae'n gallu mynd i apwyntiadau rheolaidd.


**Cynlluniau at y Dyfodol:-** Mae TU yn cynnal ei lety yn llwyddiannus bellach, wedi gwneud y fflat un ystafell yn gartref iddo ac mae'n bwriadu aros yno.



Length of time supported & cost to Supporting People:- One years and approximately **£2750**

## Prevention:-

- Domestic Abuse (Costs multiple agencies **£2470** per incident)
- Offending (costs multiple agencies **£609** per crime)



## Pobl Hŷn

### Manylion Personol:- 'XY', 56, Merthyr Tudful

**Sefyllfa ac anghenion cymorth presennol:-** Roedd XY yn byw gyda'i mam oedrannus ac yn gofalu amdani yn eu cartref teulu yr oeddent yn berchen arno'n breifat. Fodd bynnag, oherwydd anghenion gofal cynyddol, roedd yn rhaid i fam XY fynd i ofal preswyl. Yn ystod yr un cyfnod, cafodd brawd XY ddiagnosis o ganser terfynol. Yn drist iawn, mae mam a brawd XY wedi marw.

Sefydliad: Merthyr Valleys Homes

Gwybodaeth am y prosiect: Cymorth Symudol

**Hanes Personol:-** Roedd XY mewn stad ar ôl colli dau aelod o'i theulu a defnyddiodd alcohol er mwyn ymdopi. Yn ogystal, roedd rhaid i XY symud allan o gartref y teulu gan fod yn rhaid gwerthu'r eiddo. OI fewn y cyfnod hwn, torrodd perthynas XY a'i phartner gan arwain at yfed mwy o alcohol. Dirywiodd iechyd meddwl XY yn gyflym ac o ganlyniad daeth y tîm argyfwng iechyd meddwl. Yn dilyn asesiad, cafodd XY fynediad i wasanaeth cymorth pwynt mynediad unigol.

#### Cymorth a Gafwyd:-

- Cyflwyno cais i dai cymdeithasol
- Cwmni i fynd i apwyntiadau meddyg teulu ac iechyd meddwl
- Cyfeirio at wasanaethau Drink Wise Age Well
- Cyfeirio at wasanaethau gwneud y gorau o fudd-dal lles
- Cyfeirio at wasanaethau cyfeillio'r Groes Goch Brydeinig
- Cyfeirio at Ganolfan Cyngor ar Bopeth – cymorth i werthu eiddo, trefniadau angladd.

#### Canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymorth:-

- Teimlo'n Ddiogel / Cyfrannu at ddiogelwch a lles eich hun ac eraill  
Mae XY wedi'i ailgartrefu gyda llety lloches ac wedi ymgartrefu'n dda iawn. Mae ei hannibyniaeth a hyder wedi gwella ac nid yw'n teimlo'n unig ac yn ynysig mwyach.
- Rheoli Llety / Rheoli Perthnasau / Teimlo'n rhan o'r Gymuned  
Mae XY yn rheoli ei llety, mae wedi gwella ei pherthynas gydag aelodau o'r teulu, mae wedi gwneud ffrindiau newydd ac yn ymuno â gweithgareddau yn y cynllun a'r gymuned.
- Rheoli Arian / Cymryd rhan mewn Addysg neu Ddysgu / Cymryd rhan mewn Cyflogaeth neu Wirfoddoli  
Mae XY wedi cael mynediad i wasanaeth gwneud y gorau o fudd-daliadau lles MVH sydd wedi cynyddu ei hincwm wythnosol, trefnu cynlluniau talu ar gyfer cyfleustodau, rhent a biliau eraill ac wedi gwella ei chyllidebu wythnosol.
- Iach yn Gorfforol / Iach yn Feddyliol / Byw Bywyd Iach ac Actif  
Mae XY wedi lleihau faint o alcohol mae'n yfed yn sylweddol, wedi gwella hunan hyder, wedi cael mynediad i wasanaethau yn annibynnol, yn rheoli ei meddyginiaeth yn effeithiol ac yn mynd i apwyntiadau meddygol wedi'u trefnu ymlaen llaw.

### Cynlluniau at y Dyfodol:-

- Parhau i fyw'n annibynnol mewn canolfan dai lloches.
- Nodi pan fo iechyd meddwl yn gwaethygu a gofyn am gymorth yn gynnar.
- Parhau i gwrdd â ffrindiau a gwella perthnasau â'r teulu.
- Parhau i reoli faint o alcohol mae'n yfed yn ddiogel.

Hyd amser y cymorth: 14 mis

### Prevention:-

- Homelessness application (Costs local authorities **£2501** per application)
- Temporary accommodation (Costs Local authorities **£107** per week)
- Homelessness advice and support (Costs local authorities **£642** per person per scheme)
- Rough Sleeping (Costs local authorities **£7900** per year)
- Alcohol Misuse (costs the NHS **£1800** per year per dependence drinker)
- A&E attendance (Costs the NHS **£109** per incident)
- Hospital inpatients (costs the NHS **£1800** on average per episode)
- Adult Mental Health (Costs the NHS approximately **£830** per person per year)
- Mental health outpatients (costs the NHS **£140** per person per attendance)





# Cwm Taf Case Studies 2016

Produced by:  
Printing and Graphic Services Department,  
Merthyr Tydfil County Borough Council



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE  
**RHONDDA CYNON TAF**  
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

**cefnogipobl**  
**supporting people**

supporting independence  
cefnogi annibyniaeth



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TYDFIL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council